O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 103 (Cy. 23)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Ffordd Osgoi Llantarnam, Torfaen) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *18 Ionawr 2011* |
| *Yn dod i rym* | *31 Ionawr 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Casnewydd i'r Amwythig (yr A4042) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r gorchymyn hwn i rym ar 31 Ionawr 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Ffordd Osgoi Llantarnam, Torfaen) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

**2.** —1) Yn y Gorchymyn hwn:

"ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn, neu mewn cysylltiad â'r gwaith hwnnw, neu unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("works period*")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 22:00 o'r gloch ar 31 Ionawr 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" (*"the length of the trunk road"*) yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A4042 ym Mwrdeistref Sirol Torfaen sy'n ymestyn o Gylchfan Croes-y-Mwyalch i Gylchfan y Tyrpeg.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn cyfeirio at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar hyd y darn o'r gefnffordd.

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato ar waith.

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 18 Ionawr 2011

***J COLLINS***
Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1984 p27; Amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, Erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.